Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Amaethyddiaeth (Cymru)
## Crynodeb o'r Bil

Chwefror 2023



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7174**
E-bost: **Katy.Orford@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Amaethyddiaeth (Cymru)
## Crynodeb o'r Bil

Chwefror 2023

**Awduron:**
Katy Orford a Elfyn Henderson

Cyflwynwyd **Bil Amaethyddiaeth (Cymru)** ('y Bil') i'r Senedd ar 26 Medi 2022 gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ('y Gweinidog'). Gwnaeth y Gweinidog ei **datganiad yn y Cyfarfod Llawn** ar 27 Medi.

Mae'r Bil yn cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer cymorth amaethyddol yn seiliedig ar 'Reoli Tir yn Gynaliadwy'. Mae'n caniatáu pontio o system gymorth Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE.

Mae hefyd yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru a fydd yn disodli'r rhai a fydd yn dod i ben yn **Neddf Amaethyddiaeth y DU 2020**: i ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol; ar gasglu a rhannu data; a safonau marchnata a dosbarthiad carcasau.

Mae'r Bil yn diwygio Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 i sefydlu prosesau datrys anghydfod ar gyfer tenantiaid Deddf Daliadau Amaethyddol (AHA), gyda'r nod o'u helpu i allu cael cymorth yn y dyfodol.

Mae'n diwygio Deddf Coedwigaeth 1967, gan roi'r pŵer i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo coed, a galluogi CNC i ddiwygio, atal a dirymu trwyddedau.

Mae hefy d yn diwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i wahardd defnyddio maglau (ac atalyddion cebl eraill) a thrapiau glud.

Cafodd y Bil ei gyfeirio at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd ar gyfer **craffu Cyfnod 1**. Cyn dadl Cyfnod 1, **mae'r Pwyllgor yn argymell** y dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a thynnu sylw at feysydd i'w gwella ar yr un pryd.

Mae'r briff hwn yn rhoi cefndir i'r Bil, yn crynhoi ei ddarpariaethau ac yn amlinellu gwaith y Senedd hyd yma yng Nghyfnod 1 y broses ddeddfwriaethol.

# Cynnwys

**1. Cefndir** .......... **1**

**2. Crynodeb o'r darpariaethau** .......... **2**

Rhan 1 - Rheoli Tir yn Gynaliadwy .......... 2

Rhan 2 – Cymorth ar gyfer amaethyddiaeth etc. .......... 3

Pennod 1 – Pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth .......... 3

Pennod 2 – Pwerau i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ariannol a chymorth arall .......... 4

Pennod 3 – Ymyrraeth mewn marchnadoedd amaethyddol .......... 4

Pennod 4 – Tenantiaethau amaethyddol .......... 5

Rhan 3 – Materion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol .......... 5

Pennod 1 - Casglu a rhannu data .......... 5

Pennod 2 - Safonau Marchnata: cynhyrchion amaethyddol .......... 6

Pennod 3 – Dosbarthiad carcasau penodol etc. .......... 6

Rhan 4 - Coedwigaeth .......... 6

Rhan 5 - Bywyd gwyllt .......... 7

Rhan 6 – Cyffredinol .......... 8

Atodlenni .......... 8

**3. Craffu cyfnod 1 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y Bil ........ 9**

Rheoli Tir yn Gynaliadwy (Rhan 1) ........ 9

Y diffiniad o Reoli Tir yn Gynaliadwy ........ 9

Amcanion rheoli tir yn gynaliadwy ........ 10

Y ddyletswydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy ........ 11

Monitro ac adrodd ar Reoli Tir yn Gynaliadwy ........ 12

Cymorth ar gyfer amaethyddiaeth etc. (Rhan 2) ........ 13

Rhestr o ddibenion ar gyfer cymorth ........ 13

Safonau Gofynnol Cenedlaethol ........ 14

Cymorth ar gyfer gweithgareddau ategol ........ 15

Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad Effaith ........ 16

Diogeledd bwyd ........ 16

Iechyd a Lles Anifeiliaid ........ 17

Newydd-ddyfodiaid ........ 18

Pwerau cymorth trosiannol ........ 18

Datganiadau ac ymyriadau eithriadol yn y farchnad ........ 19

Tenantiaethau amaethyddol a ffermio tir comin ........ 20

Materion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol (Rhan 3) ........ 21

Casglu a rhannu data ........ 21

Safonau marchnata a dosbarthiad carcasau ........ 22

Coedwigaeth (Rhan 4) ........ 23

Pŵer i ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo coed ........ 23

Pwerau i amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwyddedau cwympo coed ........ 23

Monitro ac adrodd ar effaith caniatadau cwympo coed ........ 24

Coetiroedd Hynafol a Choed Hynod ........ 24

Bywyd gwyllt (Rhan 5) ........ 25

Maglau ........ 25

Trapiau glud ........ 26

Cyffredinol (Rhan 6) ........ 27

Diffiniad o 'amaethyddiaeth' ........ 27

**4. Dadansoddiadau pwyllgorau eraill y Senedd ........ 28**

**5. Y camau nesaf ........ 28**

# 1. Cefndir

Roedd gadael yr UE yn golygu gadael y **Polisi Amaethyddol Cyffredin** (PAC). Er mwyn caniatáu parhad taliadau i ffermwyr ar ôl 2020, **rhoddodd y Senedd gydsyniad** i **Ddeddf Amaethyddiaeth y DU 2020** ('Deddf Amaethyddiaeth y DU') gynnal y system PAC (a'i haddasu i ryw raddau) yng Nghymru.

Gan **nad** yw Deddf Amaethyddiaeth y DU yn cynnwys pwerau ar gyfer cynlluniau amaethyddol newydd i Gymru, mae wedi cadw'r status quo i raddau helaeth ar ôl gadael yr UE.

Mae Deddf Amaethyddiaeth y DU hefyd yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol; ar gasglu a rhannu data; safonau marchnata a dosbarthiad carcasau; a diogelu data.

Mae'r rhain i gyd yn bwerau trosiannol, wedi'u cynnwys yn Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth y DU. Maent yn destun cymal machlud a byddant yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024.

Ers i Ddeddf Amaethyddiaeth y DU ddod i rym, **bwriad Llywodraeth Cymru** oedd cyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru) i ddisodli'r trefniadau trosiannol hyn a chyflwyno pwerau i gyflwyno cynllun cymorth amaethyddol newydd (ymysg pethau eraill).

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig disodli system y PAC gyda'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC). Cafodd y **CFfC drafft** ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022 ac mae'n destun ymgynghoriad pellach. Byddai'r CFfC arfaethedig yn gwobrwyo ffermwyr am gymryd camau sy'n mynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy, yn seiliedig ar 'Reoli Tir yn Gynaliadwy'.

Mae'r Bil a'r CFfC drafft yn dilyn tri ymgynghoriad cyhoeddus: **Brexit a'n Tir** (2018), **Ffermio Cynaliadwy a'n Tir** (2019), a ffrwyth llafur y rhain, y **Papur Gwyn ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru)** (2020). Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal cyfnodau o '**gyd-ddylunio**' gyda rhanddeiliaid yn llywio'r cynigion.

Mae cyhoeddiadau eraill Ymchwil y Senedd yn cynnig cefndir perthnasol:

- **Cymorth amaethyddol**
- **Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

- **Y sector ffermio yng Nghymru**
- **Dylunio polisïau amaethyddol: ystyriaethau cyd-destunol**
- **Bil Amaethyddiaeth y DU (2019-21)**

# 2. Crynodeb o'r darpariaethau

## Rhan 1 - Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Mae **Adran 1** yn sefydlu pedwar amcan ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy:

- cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy;
- lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd;
- cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu; a
- cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.

Mae **Adran 2** yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arfer swyddogaethau penodol sy'n ymwneud ag "amaethyddiaeth" a "gweithgareddau ategol" (a ddiffinnir yn adrannau 48 a 49, yn y drefn honno) yn y modd yr ystyriant sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy.

Mae **Adran 3** yn darparu ar gyfer eithriadau cyfyngedig i'r ddyletswydd yn adran 2.

Mae **Adran 4** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio, cyhoeddi a gosod gerbron Senedd Cymru ddatganiad sy'n nodi'r dangosyddion a'r targedau i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy.

Mae **Adran 5** yn nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd wrth lunio neu ddiwygio dangosyddion a thargedau.

Mae **Adran 6** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiadau rheoli tir yn gynaliadwy ac mae'n nodi'r hyn y dylai'r adroddiadau hynny ei gynnwys a'r amserlen ar eu cyfer. Bydd yr adroddiadau rheoli tir yn gynaliadwy yn monitro cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy gan ddefnyddio'r dangosyddion a'r targedau.

Mae **Adran 7** yn nodi'r adroddiadau, y polisïau a'r materion eraill y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt wrth lunio'r adroddiadau rheoli tir yn gynaliadwy.

## Rhan 2 – Cymorth ar gyfer amaethyddiaeth etc.

### Pennod 1 – Pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth

Mae **Adran 8** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru a gweithgareddau ategol sy'n cael eu cynnal yng Nghymru, neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae'n nodi rhestr anghynhwysfawr o 'ddibenion' y gellir eu cefnogi. Gellir diwygio'r rhain drwy reoliadau. Nod y dibenion yw cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. Gellir darparu cymorth ar ffurf cynllun, neu drwy ddull arall.

Mae **Adran 9** yn rhoi mwy o fanylion am y cymorth y gellir ei roi o dan adran 8. Gellir darparu cymorth yn ariannol neu fel arall, a gellir ei ddarparu i berson neu sefydliad sydd wedi sefydlu neu sy'n gweithredu "cynllun trydydd parti" (h.y. cynllun nad yw'n cael ei wneud gan Weinidogion Cymru).

Mae **Adran 10** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cyhoeddi gwybodaeth benodedig am gymorth a ddarperir o dan adran 8, er enghraifft, derbynnydd unrhyw gymorth a ddarperir.

Mae **Adran 11** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar drefniadau i wirio a yw'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth o dan adran 8 yn cael eu bodloni a'r canlyniadau os nad ydynt yn cael eu bodloni. Mae'n darparu ar gyfer gorfodi cydymffurfedd a monitro i ba raddau y mae diben y cymorth wedi ei gyflawni, ac ymchwilio i droseddau a amheuir.

Mae **Adran 12** yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio adroddiad blynyddol am y cymorth ariannol a'r cymorth arall a ddarparwyd o dan adran 8 yn ystod pob blwyddyn ariannol.

Mae **Adran 13** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio Adroddiad Effaith bob pum mlynedd er mwyn asesu effaith ac effeithiolrwydd y cymorth a ddarparwyd o dan adran 8.

Mae **Adran 14** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i faterion penodol wrth lunio Adroddiad Effaith.

## Pennod 2 – Pwerau i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ariannol a chymorth arall

Mae **Adran 15** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth sy'n llywodraethu Cynllun y Taliad Sylfaenol (y Polisi Amaethyddol Cyffredin) o ran Cymru.

Mae **Adran 16** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud ag ariannu, rheoli a monitro'r Polisi Amaethyddol Cyffredin mewn perthynas â Chymru.

Mae **Adran 17** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer gwenynyddiaeth o ran Cymru.

Mae **Adran 18** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig (y Polisi Amaethyddol Cyffredin) o ran Cymru.

Mae **Adran 19** yn darparu nad oes dim yn y Bennod hon yn effeithio ar bwerau i addasu'r un meysydd (h.y. Cynllun y Taliad Sylfaenol etc.) o dan ddeddfwriaeth ar wahân.

## Pennod 3 – Ymyrraeth mewn marchnadoedd amaethyddol

Mae **Adran 20** yn darparu ar gyfer amgylchiadau lle y caiff Gweinidogion Cymru wneud datganiad "amodau eithriadol yn y farchnad" os oes aflonyddwch dwys mewn marchnadoedd amaethyddol yn gyffredinol, sy'n cael effaith andwyol sylweddol, neu sy'n debygol o gael effaith andwyol sylweddol, ar y prisiau y gellir eu cael ar gyfer cynhyrchion amaethyddol o Gymru.

Mae **Adran 21** yn nodi'r pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru yn ystod y cyfnod y mae datganiad amodau eithriadol yn y farchnad yn ar waith. Gall hyn gynnwys cymorth ariannol i gynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru y mae'r amodau eithriadol yn y farchnad a ddisgrifir yn y datganiad wedi cael, yn cael, neu'n debygol o gael, effaith andwyol ar eu hincwm.

Mae **Adran 22** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrraeth yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat. 'Ymyrraeth yn y farchnad gyhoeddus' yw prynu, storio ac ailwerthu rhai nwyddau pan fydd prisiau wedi codi. 'Cymorth storio preifat' yw talu cynhyrchwyr i storio cynnyrch am gyfnod y cytunir arno gan eu tynnu oddi ar y farchnad.

### Pennod 4 – Tenantiaethau amaethyddol

Mae **Adran 23** yn diwygio adran 19A o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986. Effaith y diwygio hwn yw rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu trefniadau datrys anghydfod i denantiaid amaethyddol sydd mewn anghydfod â landlordiaid ynghylch cymalau cyfyngol yn eu cytundebau tenantiaeth, a allai eu hatal rhag manteisio ar y cymorth ariannol a gaiff ei ddarparu o dan y Bil hwn.

## Rhan 3 – Materion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol

### Pennod 1 - Casglu a rhannu data

Mae **Adran 24** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sydd mewn "cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth", neu sydd â chysylltiad agos â chadwyn gyflenwi o'r fath, ddarparu gwybodaeth am eu gweithgareddau mewn cysylltiad â'r gadwyn gyflenwi honno.

Mae **Adran 25** yn diffinio termau allweddol a ddefnyddir yn adran 24.

Mae **Adran 26** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n cynnal "gweithgaredd perthnasol" (ac nad yw'n berson sydd "mewn" cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth, neu sydd â "chysylltiad agos" â chadwyn gyflenwi o'r fath) ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd hwnnw.

Mae **Adran 27** yn diffinio "gweithgaredd perthnasol" at ddibenion y Bennod hon.

Mae **Adran 28** yn pennu bod yn rhaid i ofynion gwybodaeth o dan adrannau 24 a 26 bennu'r dibenion y caniateir prosesu'r wybodaeth ar eu cyfer, ac yn rhestru'r dibenion hynny.

Mae **Adran 29** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi drafft o'r gofyniad cyn iddo gael ei osod.

Mae **Adran 30** yn nodi na chaniateir i wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i ofyniad gael ei phrosesu ond at y dibenion a bennir yn y gofyniad.

Mae Adran 31 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar orfodi gofyniad a osodir o dan adran 24 neu 26. Gall y rhain fynd i'r afael â chosbau am beidio â chydymffurfio ac apeliadau.

### Pennod 2 - Safonau Marchnata: cynhyrchion amaethyddol

Mae **Adran 32** yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhagnodi'r safonau y mae'n rhaid i rai cynhyrchion amaethyddol gydymffurfio â hwy pan gânt eu marchnata yng Nghymru. Rhestrir y cynhyrchion perthnasol yn Atodlen 1.

### Pennod 3 – Dosbarthiad carcasau penodol etc.

Mae **Adran 33** yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch dosbarthiad, dull adnabod a chyflwyniad carcasau penodol gan ladd-dai yng Nghymru.

## Rhan 4 - Coedwigaeth

Mae **Adran 34** yn rhoi trosolwg o sut y mae'r rhan hon o'r Bil yn diwygio Rhan 2 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 o ran Cymru.

Mae **Adran 35** yn diwygio adran 10 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 i alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru, sef yr 'awdurdod coedwigaeth priodol' i Gymru, osod amodau ar roi trwydded cwympo coed os yw'n ymddangos i CNC y byddai'n hwylus gwneud hynny at ddiben (i) gwarchod neu wella harddwch naturiol, neu (ii) gwarchod fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffisiograffigol, neu gynefinoedd naturiol.

Mae **Adran 36** yn diwygio adran 10 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 i alluogi CNC a deiliad trwydded a roddir o dan yr adran honno i gytuno (ar unrhyw adeg) i ddiwygio'r drwydded cwympo coed.

Mae **Adran 37** yn diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 i alluogi CNC i amrywio, atal dros dro neu ddirymu'n unochrog trwydded cwympo coed o dan amgylchiadau pa fo amodau'r drwydded wedi eu torri, ac amgylchiadau pan nad yw'r amodau wedi eu torri (gan fewnosod adrannau newydd 24C a 24D, yn y drefn honno).

Mae **Adran 38** yn diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 i ddarparu bod digollediad yn daladwy o dan rai amgylchiadau ar ôl i hysbysiad gael ei roi o dan adran 24C neu 24D.

Mae **Adran 39** yn diwygio Deddf Coedwigaeth 1967, sy'n darparu ar gyfer apeliadau yn erbyn penderfyniadau a gymerir i atal, diwygio neu ddirymu trwyddedau o dan adrannau newydd 24C a 24D.

Mae **Adran 40** yn diwygio adran 17 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 i ddarparu mai'r gosb am droseddau a gyflawnir mewn perthynas â thir yng Nghymru yw dirwy ddiderfyn.

Mae **Adran 41** yn gwneud sawl diwygiad canlyniadol i Ddeddf Coedwigaeth 1967 sy'n deillio o newidiadau a wnaed i'r Ddeddf honno gan adrannau 35 i 39 o'r Bil.

## Rhan 5 - Bywyd gwyllt

Mae **Adran 42** yn rhoi trosolwg o'r dibenion y mae'r Rhan hon o'r Bil yn diwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ar eu cyfer.

Mae **Adran 43** yn diwygio adran 11(1) o   wneud y gweithredoedd a ganlyn yn droseddau:

- gosod magl neu unrhyw atalydd cebl arall mewn lleoliad yng Nghymru, os yw'n fath penodol o fagl neu atalydd, ac yn cael ei osod mewn modd, sy'n debygol o anafu anifail gwyllt;
- defnyddio magl neu unrhyw atalydd cebl arall yng Nghymru at ddiben lladd neu gymryd unrhyw anifail gwyllt;
- gosod trap glud mewn lleoliad yng Nghymru, os yw'n fath penodol o drap, ac yn cael ei osod mewn modd, sy'n debygol o ddal unrhyw anifail asgwrn cefn (heblaw am bobl); a
- defnyddio trap glud yng Nghymru at ddiben lladd neu gymryd unrhyw anifail asgwrn cefn (heblaw am bobl).

Mae **Adran 44** yn diwygio adran 11(2) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i addasu'r gwaharddiadau ar osod unrhyw drap neu fagl, neu unrhyw ddyfais drydanol ar gyfer lladd neu stynio, neu unrhyw sylwedd gwenwynig, sylwedd a wenwynwyd neu sylwedd llesgáu. Yr effaith yw y bydd y gwaharddiadau'n berthnasol pan fydd eu defnydd yn "debygol" o niweidio anifail gwyllt o'r math a bennir (yn hytrach na phan fydd y defnydd ohonynt â'r "bwriad o achosi" anaf).

Mae **Adran 45** yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 sy'n gysylltiedig â'r newidiadau a wneir i'r Ddeddf honno gan adrannau 43 a 44 o'r Bil.

## Rhan 6 – Cyffredinol

Mae **Adran 46** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau atodol, canlyniadol neu drosiannol yn ôl yr angen er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil.

Mae **Adran 47** yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch rheoliadau a wneir o dan y Bil, ac mae'n nodi gweithdrefn berthnasol y Senedd ar gyfer gwneud rheoliadau o'r fath.

Mae **Adran 48** yn diffinio "amaethyddiaeth" at ddibenion y Bil.

Mae **Adran 49** yn diffinio "gweithgaredd ategol" at ddibenion y Bil.

Mae **Adran 50** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniadau o "amaethyddiaeth" a "gweithgaredd ategol" drwy reoliadau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Mae **Adran 51** yn ddarpariaeth ddehongli sy'n diffinio rhagor o eiriau a thermau a ddefnyddir yn y Bil.

Mae **Adran 52** yn cyflwyno Atodlenni 2 a 3 sy'n cynnwys cyfres o ddiwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

Mae **Adran 53** yn nodi pryd y daw pob un o ddarpariaethau'r Bil i rym.

Mae **Adran 54** yn darparu mai enw byr y ddeddf yw "Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023".

## Atodlenni

Mae **Atodlen 1** (a gyflwynir gan adran 32) yn gwneud darpariaeth ynghylch cynhyrchion amaethyddol sy'n berthnasol i'r darpariaethau safonau marchnata yn y Bil.

Mae **Atodlen 2** (a gyflwynir gan adran 52) yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhannau 1-3 o'r Bil.

Mae **Atodlen 3** (a gyflwynir gan adran 52 hefyd) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol (y "Rheoliad CMO").

# 3. Craffu cyfnod 1 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y Bil

Anfonwyd y Bil at **Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd ('y Pwyllgor') ar gyfer craffu Cyfnod 1**. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:

- cynnal **ymgynghoriad cyhoeddus** ar y Bil rhwng 30 Medi a 11 Tachwedd 2022 (**gyda 55 ymateb**);
- cynnal **sesiwn dystiolaeth gychwynnol gyda'r Gweinidog** ar 5 Hydref;
- cymryd tystiolaeth lafar gan **amrywiaeth o randdeiliaid**; a
- chynnal **sesiwn dystiolaeth olaf gyda'r Gweinidog** ar 16 Tachwedd

Mynegodd aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y gwaith o graffu ar y Bil, gan fynychu sesiynau a oedd yn ymwneud â'u cylch gwaith.

**Mae adroddiad y Pwyllgor** yn rhoi cyfrif cynhwysfawr o'r dystiolaeth, ynghyd â barn ac argymhellion y Pwyllgor. Mae'r adrannau isod yn crynhoi tystiolaeth allweddol a gafwyd a chasgliadau'r Pwyllgor, ond nid ydynt yn gynhwysfawr.

Yn gyffredinol mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, gan dynnu sylw ar yr un pryd at feysydd i'w gwella.

## Rheoli Tir yn Gynaliadwy (Rhan 1)

### Y diffiniad o Reoli Tir yn Gynaliadwy

Nid yw Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cael ei ddiffinio ar wyneb y Bil. Fe'i diffinir yn y Memorandwm Esboniadol (para 3.39) gan ddefnyddio **Diffiniad y Cenhedloedd Unedig (CU)**.

Roedd hwn yn faes allweddol lle cafwyd tystiolaeth wrthgyferbyniol. Galwodd nifer o randdeiliaid am ddiffiniad ar wyneb y Bil, ond gyda safbwyntiau gwahanol ynghylch yr hyn y dylai'r diffiniad hwnnw fod. Er enghraifft:

- Roedd undebau'r amaethwyr (NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)) eisiau **Diffiniad Banc y Byd** gan bwysleisio bod y diffiniad hwn yn ychwanegu pwysigrwydd cynhyrchu bwyd a chymunedau gwledig.
- Cefnogodd sawl grŵp amgylcheddol a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ddiffiniad y Cenhedloedd Unedig ond gan alw am gyfeiriad at ddiffiniad Deddf yr

Amgylchedd (Cymru) 2016 ('Deddf yr Amgylchedd') o **Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy** a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('Deddf 2015').

- Roedd eraill (e.e. y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur (NFFN)) yn awgrymu **10 egwyddor amaeth-ecoleg y Cenhedloedd Unedig**, gan ddadlau bod y rhain yn darparu dull cyfannol ac integredig: ac
- Roedd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru o blaid diffiniad y Cenhedloedd Unedig ond galwodd am gynnwys "cadwyni cyflenwi gwydn".

Ar 16 Tachwedd, dadleuodd y Gweinidog fod diffiniad Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cael ei egluro trwy'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, a dywedodd fod y rhain yn integreiddio diffiniadau'r Cenhedloedd Unedig a Banc y Byd.

**Barn y Pwyllgor**

Roedd y rhan fwyaf o'r Aelodau'n fodlon ag ymateb y Gweinidog ac yn cytuno bod y pedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn ffurfio'r diffiniad cyffredinol o Reoli Tir yn Gynaliadwy. Nododd y Pwyllgor fod y Bil yn cyflwyno cyfle i ddatblygu diffiniad pwrpasol i Gymru o Reoli Tir yn Gynaliadwy a phwysleisiodd pa mor bwysig yw hi bod yr amcanion yn cysylltu ag egwyddorion cydnabyddedig a deddfwriaeth gysylltiedig – gan gynnwys Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

## Amcanion rheoli tir yn gynaliadwy

Er y croeso i bedwar amcan rheoli tir yn gynaliadwy, awgrymodd y rhanddeiliaid newidiadau:

- Roedd undebau'r amaethwyr a Hybu Cig Cymru (HCC) eisiau i'r amcan cyntaf (cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy) gydnabod cyfrifoldeb Cymru yn fyd-eang i gynnal a gwella cynhyrchiant bwyd. Roedd sawl rhanddeiliad eisiau mwy o eglurder ynghylch y diffiniad o gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy;
- Cynigiodd grwpiau amgylcheddol y dylid cryfhau'r trydydd amcan (cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt). Awgrymodd RSPB Cymru y dylid newid geiriad yr amcan i '**adfer**, cynnal a gwella **bioamrywiaeth** a gwytnwch ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt'. Cynghorwyd croesgyfeirio â Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy;

- Roedd undebau'r amaethwyr yn dadlau y dylai'r pedwerydd amcan (ar adnoddau diwylliannol, mynediad y cyhoedd a'r Gymraeg) gynnwys mwy o bwyslais ar y rôl annatod mae ffermwyr yn ei chwarae, er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni'r amcanion hynny;
- Awgrymodd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur (NFFN) a chynrychiolwyr y gadwyn gyflenwi bwyd y dylid cyfeirio at y gadwyn gyflenwi bwyd ehangach i hyrwyddo cadwyni cyflenwi byrrach a sofraniaeth bwyd;
- Awgrymodd Simon Wright (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Wright's Food Emporium), Dr Mary Dobbs (Prifysgol Maynooth) a Dr Ludivine Petetin (Prifysgol Caerdydd) amcan ar gyfer ffyniant cymunedol drwy ddarparu bwyd maethlon gan gyfeirio at iechyd cymunedol;
- Roedd undebau'r amaethwyr eisiau pumed amcan ar sefydlogrwydd economaidd a bywiogrwydd gwledig sy'n gysylltiedig â diogelu bywoliaethau gwledig. Cefnogodd Dr Petetin a Dr Dobbs hyn;
- Roedd RSPCA Cymru eisiau gweld amcan ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid.
- Disgrifiodd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yr amcanion fel rhai 'annelwig' heb unrhyw weledigaeth glir ar gyfer y diwydiant bwyd.

Dywedodd y Gweinidog fod sicrhau cymunedau ffermio bywiog a gwydnwch economaidd wrth galon y Bil. Nododd fod trafodaethau parhaus gyda Phlaid Cymru o dan y Cytundeb Cydweithio ar y pumed amcan a awgrymwyd gan undebau'r amaethwyr.

**Barn y Pwyllgor**

Argymhellodd y Pwyllgor drydydd amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy cryfach sy'n mynd i'r afael ag adfer bioamrywiaeth. Gofynnodd am eglurder ar sut y bydd y Bil yn cefnogi caffael lleol a chadwyni cyflenwi lleol. Argymhellodd y dylai'r Gweinidog gyflwyno diwygiadau yn cryfhau'r pedwerydd amcan, gyda phwyslais mwy amlwg ar gefnogi cymunedau gwledig cryf a bywiog a mynd i'r afael â phryderon rhanddeiliaid. Roedd yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno diwygiadau sy'n cryfhau'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg.

## Y ddyletswydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Roedd rhai'n pryderu y gallai'r Bil, fel y'i drafftiwyd, arwain at rai amcanion yn cael eu 'ffafrio' ar draul eraill. Roedd galwadau i roi dyletswydd ar Weinidogion i

gyflawni'r amcanion mewn ffordd gytbwys.

Yn ei sesiwn gyntaf, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod yr amcanion yn gyflenwol ac aeth ymlaen i ddweud:

> ...it will be possible ... to make a significant contribution to one of them whilst making, perhaps, little or indeed no contribution to the others.

**Barn y Pwyllgor**

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Gweinidog ddiwygio adran 2 o'r Bil i'w gwneud yn glir nad oes hierarchaeth yn yr amcanion a sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni mewn ffordd gytbwys.

## Monitro ac adrodd ar Reoli Tir yn Gynaliadwy

Roedd RSPB Cymru o'r farn bod y mathau o ddangosyddion yn dyngedfennol ac y dylent fod ar wyneb y Bil.

Dywedodd y Parciau Cenedlaethol, Dr Petetin a Dr Dobbs fod dangosyddion lluosog yn angenrheidiol e.e. ar gyfer y trydydd amcan cymhleth ar wytnwch ecosystemau. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai cael gormod o ddangosyddion/targedau yn anhylaw ac yn colli ystyr.

Galwodd rhai am ymgynghoriad ehangach i ddatblygu'r dangosyddion a'r targedau. Disgrifiwyd y dull a ddefnyddiwyd o gael un ymgynghorai statudol (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol) fel un wgan yn ddemocrataidd (gan Gyswllt Amgylchedd Cymru (WEL)). Awgrymodd NFU Cymru y dylid cael gofyniad i ymgynghori â'r diwydiant amaethyddol. Awgrymodd sawl un ofyniad i ymgynghori â CNC.

Dywedodd y Gweinidog y byddai Gweinidogion Cymru yn cymryd cyngor fesul achos ond bod hyblygrwydd yn bwysig, oherwydd gallai ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a chyngor gan randdeiliaid allweddol newid. Dywedodd fod dangosyddion a thargedau yn debygol o newid dros amser ond rhestrodd y grwpiau y mae'n bwysig ymgynghori â nhw ar gyfer y cofnod.

Bydd yr adroddiadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cael eu cyhoeddi bob 5 mlynedd. Roedd pryder y bydd angen olrhain rhai dangosyddion yn amlach, gyda Dr Petetin a Dr Dobbs yn awgrymu adroddiadau interim. Bydd dangosyddion eraill yn cymryd mwy o amser i'w cyflawni, gyda rhanddeiliaid yn rhybuddio yn erbyn newid polisi

yn rhy fuan yn seiliedig ar adroddiadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

**Barn y Pwyllgor**

Fe wnaeth y Pwyllgor gydnabod galwadau am ymgyngoreion statudol eraill wrth baratoi'r dangosyddion a'r targedau i'w cynnwys yn y Bil. Derbyniodd yr aelodau bwynt y Gweinidog y bydd y gofynion o ran ymgynghori a chyngor yn newid dros amser. Croesawodd ei hymrwymiad ar y cofnod i ymgynghori ag amrywiaeth o sefydliadau ond nododd y gallai'r dull a gymerir gan Weinidogion y dyfodol fod yn wahanol. Ni wnaed unrhyw argymhelliad ar y mater hwn.

## Cymorth ar gyfer amaethyddiaeth etc. (Rhan 2)

### Rhestr o ddibenion ar gyfer cymorth

Awgrymodd rhanddeiliaid ddibenion ychwanegol / cryfach:

- Awgrymodd WEL y dylid ychwanegu gwella mynediad cymunedau at fwyd lleol i gefnogi Amaethyddiaeth â Chymorth Cymunedol;
- Dywedodd CNC y dylid ystyried addasu i newid hinsawdd;
- Roedd grwpiau amgylchedd eisiau mwy o bwyslais ar gymorth i fyd natur. Roedd awgrymiadau'n cynnwys cyfeirio at adfer cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth a'r **dull ecosystem 'DECCA'**: i sicrhau gwytnwch drwy wella amrywiaeth, maint, cysylltedd a chyflwr ecosystemau a'u gallu i addasu;
- Cynigiodd NFFN gymorth ar gyfer seilwaith, peiriannau ac offer sy'n cysylltu â'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, o ystyried eu cost;
- Hoffai NFFN a Simon Wright weld cymorth i ffermwyr sy'n addysgu'r cyhoedd ynghylch o le mae bwyd yn dod, sut mae'n effeithio ar natur ac ar yr hinsawdd, a'i rôl o ran cefnogi cymunedau gwledig bywiog;
- Teimlai Cymdeithas y Ffermwyr Tenant ac undebau'r amaethwyr fod y rhestr yn canolbwyntio'n rhy gul ar ddibenion amgylcheddol a bod angen cynnwys meini prawf sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd economaidd ac effaith gymdeithasol/ddiwylliannol;
- Roedd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru am weld cyfeiriad at rôl arloesi yn y modd mae cadwyni cyflenwi a thir yn cael eu rheoli.
- Dywedodd Cerddwyr Cymru y dylai *cynnal* mynediad (y diben yn adran 8 yw

'cynnal a gwella' mynediad y cyhoedd) fod yn rhan o'r llinell sylfaen reoleiddio gyda thaliadau'n cael eu rhoi am welliannau o dan y CFfC; a

- Galwodd Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg ac undebau'r amaethwyr am gynnwys y Gymraeg, gan nodi mai'r sector amaeth sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg. **Nododd y Gweinidog** wrth gyflwyno'r Bil y byddai'n mynd i'r afael â hyn drwy ddiwygio.

Dywedodd NFU Cymru y dylai fod yn ofynnol ymgynghori ar unrhyw reoliadau sy'n diwygio'r rhestr o ddibenion (nid oes gofyniad yn y Bil).

Dywedodd y Gweinidog nad oedd y rhestr o ddibenion yn gynhwysfawr ac y gallai gael ei diwygio dros amser gan reoliadau. Dywedodd swyddog o Lywodraeth Cymru y byddai'r rhestr yn dod yn fyw yn y CFfC, er enghraifft o ran cymorth i brosiectau seilwaith cyfalaf ac arloesedd.

**Barn y Pwyllgor**

Nododd y Pwyllgor alwadau i ddiwygio'r rhestr o ddibenion, a gwahoddodd y Gweinidog i ystyried y rhain gyda'r bwriad o gyflwyno diwygiadau. Yn benodol, roedd y Pwyllgor o'r farn bod arloesi, y Gymraeg, mynediad i'r gymuned ac addysg am systemau bwyd yn allweddol.

## Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Bydd Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ffurfio'r llinell sylfaen reoleiddio, gyda ffermwyr yn cael eu gwobrwyo trwy'r CFfC am ragori ar y sylfaen hon. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyfnerthu'r safonau presennol (gan gynnwys trawsgydymffurfio'r PAC) a dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod swyddogion yn archwilio a oes angen deddfwriaeth bellach.

Nododd sawl rhanddeiliad risg na fydd y Safonau ar waith mewn pryd ar gyfer lansiad y CFfC os oes angen deddfwriaeth bellach. Roedd WEL yn argymell gosod dyletswydd yn y Bil hwn i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r Safonau mewn pryd ar gyfer y CFfC ym mis Ionawr 2025. Galwodd rhanddeiliaid amgylcheddol, undebau'r amaethwyr, a Chymdeithas Milfeddygon Prydain am ymgynghoriad ystyrlon ar y Safonau.

**Barn y Pwyllgor**

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Gweinidog ystyried sut mae'r bwriad polisi o amgylch y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael ei gyfleu i randdeiliaid

wrth ddatblygu'r CFfC. Dylai gadarnhau i'r Pwyllgor ei bwriadau o ran y Safonau, gan gynnwys a fydd deddfwriaeth bellach yn cael ei chyflwyno.

## Cymorth ar gyfer gweithgareddau ategol

Roedd llawer yn croesawu'r pwerau i Weinidogion Cymru gynorthwyo gweithgareddau ategol i wella'r gadwyn gyflenwi ehangach a helpu ffermwyr i roi cynhyrchion ar y farchnad.

Roedd y ddau undeb yn pryderu y gallai ehangder y pwerau cymorth ategol, yn enwedig o dan baragraff (a) yn adran 49, gyfeirio cymorth i ffwrdd oddi wrth ffermwyr gweithredol. Fodd bynnag, croesawodd Coed Cadw y pŵer hwn i ymestyn y cymorth ar gyfer cadwraeth natur ehangach ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth.

Galwodd cynrychiolwyr y gadwyn gyflenwi bwyd am ddull cytbwys o gynorthwyo cynhyrchwyr bwyd a'r rhai y tu hwnt i giât y fferm i sicrhau system bwyd-amaeth gynaliadwy, gan ddweud na chynghorir gwahanu'r gwahanol elfennau.

Roedd Confor eisiau cynnwys pren a ffeibr pren yn y diffiniadau o ategol:

Mae adran 49 yn diffinio "gweithgaredd ategol". Yn ei sesiwn dystiolaeth olaf nododd y Gweinidog yn glir fod y cymorth i raddau helaeth iawn ar gyfer ffermwyr gweithredol o dan y diffiniad yn adran 49(b). Esboniodd y Gweinidog a'r swyddogion, fel y dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, y dylid cymryd ystyr 'amaethyddiaeth' ac ystyr 'gweithgaredd ategol' gyda'i gilydd, nid ar wahân, felly ni fyddai cymorth ond yn cael ei ddarparu i ffermwyr sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

> The policy intent is that the farmer would have to be involved in that processing, packaging, marketing and branding etc.

Er nad yw'r Bil yn atal hyn, nid oes unrhyw beth yn adrannau 8 a 49(b) i dargedu neu gyfyngu ar gymorth yn unol â'r bwriad polisi a nodir.

### Barn y Pwyllgor

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Gweinidog egluro cwmpas y cymorth ar gyfer "gweithgareddau ategol" o ran a yw ar gyfer ffermwyr gweithredol yn unig neu'r rhai yn y gadwyn gyflenwi ehangach. Roedd o'r farn y gallai'r diffiniad mwy cyfyngedig godi pryderon ar gyfer y gadwyn gyflenwi

ehangach. Gofynnodd iddi gadarnhau a yw hi'n bwriadu egluro hyn trwy ddiwygio.

## Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad Effaith

Roedd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yng Nghymru o'r farn bod yr Adroddiad Effaith yn dyblygu'r adroddiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy, ac felly mai dim ond un adroddiad cyffredinol sydd ei angen. Galwodd am gyhoeddi'r adroddiad bob tair blynedd (yn lle bob pum mlynedd fel sy'n digwydd gyda'r Adroddiad Effaith).

Dywedodd FUW fod y darpariaethau'n bwysig ar gyfer craffu a thryloywder, o ystyried ei bryderon am werth am arian wrth ddarparu'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Roedd undebau'r amaethwyr yn pryderu, fodd bynnag, y byddai'r gwaith adrodd yn cynnwys costau gweinyddu sylweddol.

Nododd CNC nad oes amserlen wedi'i chynnwys ar gyfer gweithredu ar ganfyddiadau'r Adroddiad Effaith a allai effeithio ar yr ôl-weithredu.

**Barn y Pwyllgor**

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Gweinidog ystyried diwygio'r Bil i gynnwys amserlen ar gyfer gweithredu ar ganfyddiadau unrhyw Adroddiad Effaith.

## Diogeledd bwyd

Dywedodd HCC ac undebau'r amaethwyr fod angen pwyslais ar ddiogeledd bwyd yn y fframwaith newydd. Ystyriwyd diogeledd bwyd yn eang e.e. drwy wella'r amgylchedd a hefyd drwy flaenoriaethu mewnforion/allforion i ychwanegu gwerth.

Dadleuodd RSPB Cymru fod diffyg diogeledd bwyd yn ymwneud llai â chynhyrchiant a mwy â ffactorau sy'n cynnwys gwastraff bwyd, dewisiadau deiet a thlodi bwyd. Yn ôl WWF Cymru mae angen pwysleisio sofraniaeth bwyd a chadwyni cyflenwi byrrach.

Tynnodd Simon Wright sylw at bwysigrwydd garddwriaeth sydd, meddai, angen ystyriaeth arbennig. Roedd Cynghrair y Gweithwyr Tir yn pryderu y gallai ffermydd ffrwythau a llysiau bach golli allan ar gymorth drwy'r CFfC.

Cyfeiriodd sawl rhanddeiliad at gyfleoedd i integreiddio cyflawni'r Bil hwn â'r Bil Bwyd (Cymru), e.e. ar economïau bwyd cylchol a chaffael cyhoeddus.

Argymhellodd RSPB Cymru y dylai'r Bil roi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gynnal asesiad rheolaidd o ddiogeledd bwyd, gan gynnwys nodi cyfleoedd i gynhyrchwyr bwyd cynaliadwy o Gymru. Cefnogwyd hyn gan gynrychiolwyr y gadwyn gyflenwi bwyd.

**Barn y Pwyllgor**

Nododd yr aelodau dystiolaeth am gyfleoedd y mae'r Bil yn eu cyflwyno i gefnogi gweledigaeth ar gyfer cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a mwy o arallgyfeirio. Bydd y Pwyllgor yn archwilio polisïau bwyd ymhellach wrth graffu ar Fil Bwyd (Cymru).

Argymhellodd y dylai'r Gweinidog ystyried y dystiolaeth ar gyfer cryfhau'r Bil ymhellach i hyrwyddo cyfleoedd garddwriaeth a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd arallgyfeirio, ac ystyried sut mae amcanion y Bil yn cyd-fynd â barn rhanddeiliaid ar y Bil Bwyd (Cymru).

## Iechyd a Lles Anifeiliaid

Dadleuodd y BVA nad oes digon o bwyslais yn cael ei roi ar iechyd a lles anifeiliaid.

Roedd RSPCA Cymru yn siomedig nad yw'r Bil yn mynd mor bell â Deddf Amaethyddiaeth y DU. Soniodd am y cynllun llwybr milfeddygol penodol lle mae ffermwyr yn Lloegr yn derbyn taliadau i gael y milfeddyg ar y safle yn ogystal â chyllid ar gyfer costau cyfalaf i gyflwyno systemau lles uwch. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y cynllun llwybrau milfeddygol yn rhywbeth i'w efelychu a'i gynnwys yn y CFfC.

Dywedodd y BVA y dylai milfeddygon fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (a drafodwyd uchod), er mwyn sicrhau bod iechyd a lles anifeiliaid yn cael eu diogelu. Pwysleisiodd y BVA hefyd rôl bwysig y milfeddyg wrth fonitro a bodloni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy y Bil.

**Barn y Pwyllgor**

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog egluro rôl y milfeddyg fferm wrth fonitro amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, a datblygu Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid.

## Newydd-ddyfodiaid

Roedd nifer o randdeiliaid o'r farn nad yw'r Bil yn cynorthwyo olyniaeth, newydd-ddyfodiaid a modelau perchnogaeth gymunedol amgen. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn edrych ymlaen at weld syniadau gan weithgor newydd-ddyfodiaid ar sut i'w cefnogi.

Roedd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yng Nghymru wedi cael siom o weld nad oedd cyfeiriad at Ystadau Tyddynnod Cynghorau Sir, er gwaethaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn aml yn siarad am eu pwysigrwydd a'r pryder am y graddau y maent yn cael eu colli drwy waredu amhriodol. Mae o'r farn bod y tyddynnod hyn yn allweddol i newydd-ddyfodiaid, gan dynnu sylw at y ffaith bod 30% ohonynt wedi cael eu colli yn y 30 mlynedd diwethaf. Dywedodd y dylai'r Bil roi pwerau i Weinidogion graffu ar gynlluniau ystadau gwledig a'u cynlluniau ar gyfer gwaredu, a chymeradwyo'r rhain, er mwyn sicrhau'r gwerth gorau.

Dywedodd y Gweinidog wrth Aelodau yn ei sesiwn dystiolaeth olaf ar y Bil:

> Welsh Ministers have always had a statutory duty in relation to the activities of local authorities and smallholdings...I have to have an annual report from local authorities about their smallholdings … there isn't much of a strategic view across the whole of Wales, so I have asked the [new entrants] working group to have a look at this and see how we can have a much more co-ordinated approach.

### Barn y Pwyllgor

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Gweinidog gyflwyno diwygiadau i'r Bil i ystyried anghenion newydd-ddyfodiaid, ac adrodd yn ôl ar gynlluniau eraill o ganlyniad i waith y gweithgor newydd-ddyfodiaid.

## Pwerau cymorth trosiannol

Roedd rhanddeiliaid yn argymell pontio graddol (hyd at 2029) ar gyfer y CFfC newydd, gan rybuddio yn erbyn dull ymyl y dibyn.

Cynigiodd rhai grwpiau amgylcheddol ddarpariaeth machlud fel y byddai pwerau i alluogi parhau â thaliadau yn arddull y PAC yn dod i ben ddiwedd 2029. Byddai hyn yn atal defnydd amhenodol ac yn sicrhau pontio llawn i'r CFfC yn 2029. Ar y llaw arall rhybuddiodd undebau'r amaethwyr yn erbyn darpariaeth machlud, gan dynnu

sylw at bwysigrwydd cael yr holl offer sydd ar gael i sicrhau sefydlogrwydd pe bai argyfwng yn codi.

Wrth gael ei holi am y ddarpariaeth machlud dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod darpariaeth o'r fath wedi cael ei hystyried ond ei bod wedi penderfynu peidio â'i chynnwys ac y byddai'n arfer y pwerau pan fyddai'r CFfC yn barod, nid cyn 2025.

**Barn y Pwyllgor**

Nid yw'r Pwyllgor yn argymell darpariaeth machlud.

## Datganiadau ac ymyriadau eithriadol yn y farchnad

Roedd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yng Nghymru eisiau sicrwydd y bydd ymyriadau yn y farchnad yn cynnwys ffenomenau naturiol yn ogystal â digwyddiadau economaidd sy'n effeithio ar farchnadoedd. Dywedodd y dylai gwmpasu nid yn unig galedi acíwt ond hefyd anawsterau hirhoedlog cronig fel clefyd endemig neu newidiadau strwythurol mewn marchnadoedd amaethyddol. Dywedodd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yng Nghymru ac NFU Cymru y dylai Gweinidogion Cymru ystyried costau ac argaeledd mewnbynnau yn ogystal â'r prisiau y gellir eu cyflawni am gynhyrchion amaethyddol'.

Roedd Simon Wright yn poeni sut y byddai'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio, gan ddweud:

> given what we've experienced in the last three years, we could be constantly in exceptional market conditions.

Dadl yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol oedd y dylid defnyddio'r pwerau hyn yn gymesur er mwyn osgoi mygu ymatebion y diwydiant i risg.

Dadleuodd Undeb Amaethwyr Cymru y dylai'r Bil fynnu cydlyniad ar draws y Deyrnas Unedig ar ymyriadau yn y farchnad, o ystyried y gallai dargyfeirio dulliau gweithredu ystumio'r farchnad. Rhybuddiodd Dr Mary Dobbs yn erbyn unrhyw ofynion unochrog ar gyfer Gweinidogion Cymru, ond awgrymodd y gallai'r Bil ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymhwyso prosesau fframwaith cyffredin.

Wrth gael ei holi, dywedodd y Gweinidog y byddai ymyriadau'n cael eu hystyried yn achos unrhyw aflonyddu ar fusnes ar raddfa fawr lle mae'n amlwg nad yw'r ffermwr ar fai, gan gynnwys tywydd eithafol. Dywedodd y byddai'n bwysig cydlynu

â gwledydd eraill y DU, ac mai'r Fframwaith Cyffredin ar Gymorth Amaethyddol oedd y mecanwaith priodol. Nododd un o swyddogion Llywodraeth Cymru, o ran anawsterau acíwt a chronig, y pŵer ar gyfer estyniad treigl os oes angen.

Ni fynegodd y Pwyllgor farn yn y maes hwn.

## Tenantiaethau amaethyddol a ffermio tir comin

Rheolir cyfran sylweddol o dir ffermio yng Nghymru drwy gytundebau tenantiaeth. Mae dau brif fath o denantiaeth amaethyddol:

- Tenantiaethau Deddf Daliadau Amaethyddol (AHA) sy'n cael eu llywodraethu gan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 (y rhai y cytunwyd arnynt cyn 1 Medi 1995);
- Tenantiaethau Busnes Fferm (FBT) sy'n cael eu llywodraethu gan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 (y rhai y cytunwyd arnynt ar ôl 1 Medi 1995).

Roedd y sector tenantiaid yn grŵp allweddol â phryderon ynghylch y Bil.

Pwysleisiodd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yng Nghymru bod y ffaith nad yw'r Bil yn ymestyn i Denantiaethau Busnes Fferm i'w helpu i gael mynediad at gymorth yn y dyfodol yn hepgoriad enfawr. Mae'n dweud bod angen amddiffyn Tenantiaethau Busnes Fferm oherwydd eu natur tymor byr, telerau cyfyngol a rhenti uchel. Tynnodd sylw at y ffaith bod Tenantiaethau Busnes Fferm yn cwmpasu tua hanner y sector tenantiaid ac yn debygol o gyfrif am y mwyafrif o denantiaethau fferm ymhen amser.

Ar y llaw arall, honnodd y Gweinidog fod mecanweithiau digonol eisoes ar waith ar gyfer Tenantiaethau Busnes Fferm, yn wahanol i denantiaethau AHA nad ydynt yn cael sylw yn y Bil. Yn ystod sesiwn olaf y Gweinidog, dywedodd swyddog o Lywodraeth Cymru y bydd newidiadau i Ddeddf 1986 yn ei chysoni â'r hyn sydd eisoes yn dod o dan adran 28 o Ddeddf 1995. Meddai:

> our view is that that section provides sufficiently broad arrangements for matters to be referred to arbitration.

Clywodd y Pwyllgor, er bod gweithgor tenantiaeth fferm wedi ei sefydlu, nad oedd wedi ei sefydlu mewn pryd i lywio datblygiad y Bil. Yn hytrach, bydd yn rhan o'r ymgynghori ar ddiwygiadau'r llywodraeth i'r Bil.

Roedd cynrychiolwyr tir comin yn poeni'n fawr am fynediad at gynlluniau'r dyfodol ac yn gweld y Bil fel cyfle a gollwyd. Croesawodd aelodau gadarnhad y Gweinidog ar 16 Tachwedd bod gweithgor tir comin wedi'i sefydlu i hysbysu Llywodraeth Cymru, yn enwedig ar eu hanghenion arbennig ar gyfer y CFfC.

**Barn y Pwyllgor**

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl ar sut mae pryderon ffermwyr tenant ynghylch darpariaethau datrys anghydfod yn y Bil yn cael sylw. Dylai hyn gynnwys cadarnhad a yw'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno diwygiad (diwygiadau) i'r Bil, neu fel arall ymgynghori â'r Pwyllgor ar ei rhesymeg dros ddull arall.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Gweinidog gyflwyno cynigion penodol i fynd i'r afael â phryderon cominwyr ynghylch gorfodi a mynediad at gynlluniau cymorth, naill ai drwy ddiwygio'r Bil neu fel arall.

## Materion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol (Rhan 3)

### Casglu a rhannu data

Pwysleisiodd rhanddeiliaid na ddylai'r gofynion darparu data fod yn or-feichus. Roedd rhai yn dadlau y dylai ffermwyr gael eu talu am gasglu'r data hwn.

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ar 16 Tachwedd nad yw hi am roi baich ar ffermwyr yn ddiangen gan fod corff enfawr o ddata eisoes yn cael ei gasglu.

Dywedodd NFU Cymru y byddai'n hoffi gweld mwy o fesurau diogelu data yn y Bil. Dywedodd, gan nad yw GDPR y dyfodol yn hysbys, fod angen i'r Bil gynnig amddiffyniad, ac mae'n galw am eglurder ar gyrchfan y data.

**Ysgrifennodd y Gweinidog** at y Pwyllgor ynghylch y materion hyn ar 24 Hydref. Cadarnhaodd fod darpariaethau casglu data'r Bil yn cydymffurfio â GDPR y DU a deddfwriaeth diogelu data. Dywedodd nad yw'r Bil yn atal gwerthu data i drydydd partïon, ond nad yw'n bolisi nac yn fwriad gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny.

Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru ac NFU Cymru y dylai cosbau'n ymwneud â darparu data fod yn gymesur. Ni ddylai anghywirdebau sy'n deillio o gasglu data awtomataidd (fel delweddau lloeren) arwain yn awtomatig at gosbau.

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai'r darpariaethau'n caniatáu i orfodaeth fod yn gymesur, ac y bydd rheoliadau'n dilyn y weithdrefn gadarnhaol.

**Barn y Pwyllgor**

Roedd gan aelodau bryderon am ddealltwriaeth Llywodraeth Cymru o faint y cyfrifoldeb a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynnwys darpariaethau casglu a rhannu data o'r fath yn y Bil.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n nodi'n glir yr holl reolyddion a phroseswyr ar gyfer unrhyw ddata sy'n cael ei gasglu o dan y Bil, er mwyn sicrhau tryloywder ynglŷn â'r broses i ffermwyr.

Gofynnodd i'r Gweinidog gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn fodlon diwygio'r Bil i gynnwys ymrwymiad i adolygu gweithrediad y drefn casglu data o dan y darpariaethau yn y Bil ar ôl pum mlynedd.

## Safonau marchnata a dosbarthiad carcasau

Dywedodd NFU Cymru a Dr Petetin a Dr Dobbs y bydd angen defnyddio fframweithiau cyffredin mewn perthynas â›r darpariaethau hyn i sicrhau nad yw Cymru o dan anfantais oherwydd bod cynhyrchion â safonau is yn dod i mewn i'r farchnad.

Dywedodd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yng Nghymru fod rhaid i'r Bil osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth osod y safonau hyn, i roi sylw i sicrhau nad yw cynhyrchwyr cynradd yng Nghymru o dan anfantais. Awgrymodd RSPB Cymru y dylai'r Bil ymrwymo Gweinidogion i gynnal asesiadau o effaith cytundebau masnach y dyfodol ar amaethyddiaeth yng Nghymru.

Dywedodd HCC nad yw Atodlen 1 i'r Bil, sy'n rhestru cynhyrchion amaethyddol sy'n berthnasol i'r darpariaethau safonau marchnata, yn cynnwys cig defaid. Dywedodd ei fod yn waith torri a gludo o Gyd-drefniadaeth y Farchnad yr Undeb Ewropeaidd, a bod y diwydiant cig defaid bob amser yn berthynas dlawd yn yr Undeb Ewropeaidd. Cafwyd gohebiaeth bellach gan y Gweinidog **ar 19 Rhagfyr**. Dywedodd fod y rhestr yn Atodlen 1 yn fwriadol anghynhwysfawr fel y gellid diogelu'r sector amaeth ar gyfer y dyfodol ac nad yw'n atal cynhyrchion eraill rhag cael eu hychwanegu.

**Barn y Pwyllgor**

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Gweinidog gyflwyno diwygiad i'r Bil sy'n ymrwymo Gweinidogion Cymru i gynnal asesiadau o effaith cytundebau masnach y dyfodol ar amaethyddiaeth yng Nghymru.

## Coedwigaeth (Rhan 4)

### Pŵer i ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo coed

Roedd Coed Cadw, Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd y DU a'r Grŵp Coedwigaeth Gorchudd Parhaus yn cefnogi'r pŵer i CNC ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau torri coed. Nid oedd Coed Cadw yn glir ynghylch sut y bydd CNC yn defnyddio'r pwerau. Fodd bynnag, mae CNC wedi cyhoeddi **papur ar sut y mae'n bwriadu gweithredu'r pwerau**. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai hyn yn dod yn rhan o'r datganiad o fwriad polisi ar gyfer y rhan hon o'r Bil.

Galwodd Coed Cadw am ddiwygiad i sicrhau bod monitro ac adrodd ar effaith cydsyniadau cwympo coed yn cyfateb i'r gofynion ar gyfer adrodd ar gyflawniadau amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy ac effaith y cynllun cymorth.

Fodd bynnag, roedd Confor yn gwrthwynebu'r pŵer hwn gan ddweud y byddai hyn yn debygol o wthio perchnogion naill ai i gwympo coed yn anghyfreithlon neu gefnu ar reoli coedwigoedd yn gyfan gwbl. Dywedodd y byddai'n well i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â chwympo coed yn anghyfreithlon a chwympo coed anghymwys drwy ddeddfwriaeth bresennol, gan gynnwys, pan fo'n berthnasol, deddfwriaeth gynllunio.

Yn ôl Confor hefyd, os yw'r newidiadau yn mynd i ddigwydd, dylai Llywodraeth Cymru ac eraill ddarparu tystiolaeth bellach ac y dylid delio â'r mater hwn drwy ddeddfwriaeth ar wahân. Dywedodd Confor hefyd os yw'r Bil yn cael ei ddeddfu ar ei ffurf bresennol, fod yn rhaid i drwyddedau cwympo coed ddychwelyd i fod am gyfnod o 5 mlynedd yn unol â Lloegr a'r Alban (fel yr oedden nhw yng Nghymru cyn 2013), ac mae'n rhaid adolygu cynlluniau Rheoli Hirdymor yn sylweddol er mwyn eu gwneud yn addas i'r diben.

### Pwerau i amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwyddedau cwympo coed

Roedd Coed Cadw a Confor, ar y cyfan, o blaid y pwerau newydd i Cyfoeth Naturiol Cymru amrywio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo coed y mae wedi eu rhoi'n barod.

Fodd bynnag, roedd Confor yn bryderus iawn am y defnydd o'r pŵer hwn lle na fu achosion o dorri amodau (gweler adran 37 o'r Bil, sy'n mewnosod adran 24D newydd yn Neddf Coedwigaeth 1967).

Dywedodd Confor na ddylai fod yn bosibl i drwydded sydd eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a rheoleiddiol gael ei hatal dros dro oherwydd yr effaith ar nodweddion naturiol neu ffisegol. Yn hytrach, pe baent o bwys, byddai materion o'r fath yn cael eu hystyried yn faterion cydymffurfedd â deddfwriaeth arall.

Mynegodd Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig bryder am hyfywedd gweithredol a cheisiadau mwy beichus am drwyddedau, a dywedodd fod angen ymgynghori ymhellach â'r sector ar y dull arfaethedig. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil yn pwysleisio nad oes gan CNC bwerau i ddiwygio, atal dros dro na diddymu trwydded ar ôl ei rhoi os bydd rhywbeth am y gweithgaredd trwyddedig yn dod yn annerbyniol maes o law. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â ffactorau a nodwyd ar ôl caniatáu'r drwydded, fel presenoldeb rhywogaethau a warchodir a oedd wedi cael ei hepgor yn ddamweiniol neu'n fwriadol. Neu gallai fod yn achos o newid perchnogaeth yn arwain at newid amcanion, neu lle mae clefyd yn effeithio ar y dewis o rywogaethau wrth ailstocio.

Er hynny, dadleuodd Confor fod yn rhaid dileu'r categori cyffredinol hwn, oherwydd o ystyried perfformiad anghyson CNC, mae ofn sylweddol y bydd y pwerau hyn yn cael eu camddefnyddio.

## Monitro ac adrodd ar effaith caniatadau cwympo coed

Galwodd Coed Cadw hefyd am ddiwygiad i sicrhau bod monitro ac adrodd ar effaith caniatadau cwympo coed yn cyfateb i'r gofynion ar gyfer adrodd ar gyflawniadau amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy ac effaith y cynllun cymorth.

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai adolygiad o'r ddeddfwriaeth yn cael ei gynnal o fewn tair blynedd i gychwyn. Byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CNC a rhanddeiliaid i gytuno ar ffordd ymlaen ynghylch pa ddata sydd ei angen ac sy'n cael ei gasglu. Pwysleisiodd bwysigrwydd cydbwysedd rhwng monitro a sicrhau bod gan CNC hefyd yr adnodd i ymateb i geisiadau am drwyddedau cwympo coed mewn modd amserol.

## Coetiroedd Hynafol a Choed Hynod

Croesawodd WEL y pwerau yn Rhan 4 yn fras gan ddweud y gallent fod o gymorth

i gadwraeth coetiroedd hynafol ond roedd ganddynt rai pryderon ynghylch gweithredu:

> It is not clear whether or how NRW will use the proposed new powers to achieve this, or that recording and reporting mechanisms will reveal the impact on ancient woodland condition

Roedd Coed Cadw yn cydnabod pwysigrwydd y pwerau mewn perthynas â chadwraeth coetiroedd hynafol, gan nodi bod cryfhau amddiffyniadau ar gyfer coetiroedd hynafol yn ymrwymiad yn y diweddariad o **Raglen Lywodraethu Cymru 2021**, ond heb unrhyw ddarpariaeth yn y gyfraith ar hyn o bryd.

**Barn y Pwyllgor**

Roedd y Pwyllgor o blaid y darpariaethau coedwigaeth ond argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru, CNC a'r sector coedwigaeth barhau i gydweithio ar ganllawiau a chyd-ddealltwriaeth ynghylch y pwerau newydd. Dywedodd y dylai Llywodraeth Cymru a CNC weithio'n gyflym er mwyn canfod y data sydd ei angen i asesu effeithiolrwydd y darpariaethau newydd.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Gweinidog amlinellu sut mae'n gweld y materion rheoli coetiroedd eraill a godwyd yn ystod craffu Cyfnod 1 (heb eu cynnwys yn y Bil) yn cael sylw, gan gynnwys mwy o amddiffyniadau ar gyfer coetiroedd hynafol a choed hynod.

## Bywyd gwyllt (Rhan 5)

### Maglau

Dadleuodd GWCT Cymru (Ymddiriedolaeth Gwarchod Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt) fod 'Atalyddion Cebl Heb Greulondeb' (HRCs) (a elwir hefyd yn faglau sy'n cydymffurfio â'r cod) yn drugarog ac yn ddethol o'u defnyddio yn unol â **Chod Llywodraeth Cymru ar yr arferion orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid.**

Nid oedd grwpiau lles anifeiliaid yn cytuno, ac maent o'r farn bod gwaharddiad llwyr ar faglau yn gymesur o ystyried faint o ddioddefaint mae maglau yn ei achosi i anifeiliaid.

Dadleuodd GWCT Cymru y gallai gwahardd y dull hwn o reoli llwynogod beryglu rhywogaethau â blaenoriaeth o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (e.e. y gylfinir). Dywedodd y byddai'r gwaharddiad yn torri dyletswydd Deddf yr Amgylchedd ar Weinidogion Cymru i gymryd pob cam rhesymol i gynnal a hybu'r rhywogaethau hyn. Cynigiodd GWCT fod HRCs yn cael eu trwyddedu. Yn y

cyfamser amlygodd grwpiau lles fod maglau yn dal rhywogaethau adran 7, a thrwy beidio â'u gwahardd gallai Gweinidogion Cymru fod yn torri eu dyletswydd.

Ar 16 Tachwedd dywedodd y Gweinidog:

> we prefer to see a holistic approach to protecting animals—nesters, for instance—and that permitted means of killing is used only as a last resort.

Galwodd sawl grŵp lles anifeiliaid a'r BVA am ymestyn y gwaharddiad ar faglau i gynnwys gweithgynhyrchu, meddu ar a gwerthu maglau (yn ogystal â'u ddefnyddio).

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod llawer o faglau ansoffistigedig wedi'u gwneud o ddeunyddiau y gellid eu defnyddio at wahanol ddibenion, felly byddai anawsterau o ran gorfodi'r gwaharddiad ar werthu maglau.

**Barn y Pwyllgor**

Roedd mwyafrif clir o'r Pwyllgor yn cefnogi'r darpariaethau i wahardd defnyddio maglau, er bod cefnogaeth gan ddau Aelod i'r Gweinidog roi ystyriaeth bellach i system drwyddedu sydd wedi'i rheoleiddio'n helaeth.

## Trapiau glud

Dadleuodd dau gorff masnach rheoli plâu mawr y DU, Cymdeithas Rheoli Plâu Prydain (BPCA) a'r Gymdeithas Technegwyr Plâu Genedlaethol (NPTA), y dylid cadw trapiau glud ar gyfer defnydd proffesiynol mewn sefyllfaoedd risg sylweddol uchel lle mae bygythiad i iechyd y cyhoedd a lle mae cyflymder yn flaenoriaeth (e.e. ysbytai). Yn ôl y ddau gorff, os bydd cynllun trwyddedu yn cael ei ddefnyddio, rhaid iddo beidio ag arafu camau gweithredu cyflym.

Aeth y Gymdeithas Technegwyr Plâu Genedlaethol ati i dynnu sylw at gyfyngiadau dulliau amgen e.e. bod llygod bach yn osgoi gorsafoedd abwyd cnofilod (ymwrthedd ymddygiadol) a bod deunydd lladd cnofilod yn destun craffu oherwydd halogiad amgylcheddol.

Bydd Deddf Trapiau Glud (Troseddau) y DU 2022 yn gwahardd y defnydd o drapiau glud yn Lloegr, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Bydd yn sicrhau nad yw trwyddedau i ddefnyddio trapiau glud ond yn cael eu rhoi i reolwyr plâu proffesiynol pan nad oes dewis arall addas i sicrhau iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd.

**Mae cyrff lles anifeiliaid wedi dweud** nad oes unrhyw amgylchiadau lle mai trapiau glud yw'r unig ddull ymarferol. Maen nhw eisiau gwaharddiad ar werthu yn ogystal â defnyddio trapiau glud gan dynnu sylw at natur greulon y trapiau.

Ar 16 Tachwedd, dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd awdurdodau lleol yn eu defnyddio, ac nad oedden nhw na gwasanaethau rheoli plâu wedi codi unrhyw bryderon am waharddiad. Dywedodd y Gweinidog hefyd wrth yr Aelodau fod DEFRA wedi wynebu problemau dyrys wrth ddatblygu trefn drwyddedu ar gyfer Lloegr, ac mai gwaharddiad llwyr oedd y dull cywir i Gymru.

**Barn y Pwyllgor**

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r darpariaethau yn Rhan 5 o'r Bil i wahardd defnyddio trapiau glud.

## Cyffredinol (Rhan 6)

### Diffiniad o 'amaethyddiaeth'

Mae Adran 48 yn diffinio "amaethyddiaeth" at ddibenion y Bil.

Roedd barn gref ynghylch pa mor briodol ydoedd bod modd i'r diffiniad o 'amaethyddiaeth' gael ei ddiwygio gan is-ddeddfwriaeth o dan adran 50. Roedd pryder y gallai holl gwmpas y Bil fframwaith hwn gael ei newid gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol drwy is-ddeddfwriaeth. Dywedodd NFU Cymru y dylai fod dyletswydd i ymgynghori ar adran 50.

Cyfiawnhaodd y Gweinidog y ddarpariaeth yn adran 50 i ganiatáu ar gyfer arloesi. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod hyn yn bwysig oherwydd bod y Bil yn mynd i fod ar waith am o leiaf ddau ddegawd, gobeithio, ac felly ei bod yn bwysig iawn sicrhau ei fod yn addas i'r dyfodol.

**Barn y Pwyllgor**

Teimlai'r Pwyllgor fod y gallu i ddiwygio'r diffiniad o 'amaethyddiaeth' drwy reoleiddio yn codi pryderon am gwmpas y dyfodol, a rôl rhanddeiliaid a'r Senedd wrth graffu ar weithredoedd Gweinidogion Cymru y dyfodol. Anogodd y Gweinidog yn daer i ystyried sut y gellir lleddfu'r pryderon hyn, gan gynnwys drwy ystyried cynnig NFU Cymru i gael dyletswydd i ymgynghori.

# 4. Dadansoddiadau pwyllgorau eraill y Senedd

Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil yn unol â'i **gylch gwaith**. **Mae ei adroddiad** yn codi sawl mater o bwys. Mae'n disgrifio'r Bil fel 'Bil galluogi' gyda siom ynghylch y diffyg manylder ar wyneb y Bil a'r defnydd helaeth o bwerau dirprwyedig.

Bu'r Pwyllgor Cyllid yn ystyried goblygiadau ariannol y Bil. Er bod y Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil, daw ei **adroddiad** i'r casgliad bod ganddo bryderon sylweddol ynghylch y diffyg gwybodaeth ariannol sydd ar gael yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ymwneud â chynllun amaethyddol y dyfodol. Mae'n nodi bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn cynnwys nifer o gostau heb eu meintioli ac nad yw'n meintioli rhai o fanteision y Bil.

# 5. Y camau nesaf

Bydd y Senedd yn trafod egwyddorion cyffredinol y Bil (dadl Cyfnod 1) ar 7 Chwefror 2023.

Pe bai'r Senedd yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol, bydd y Bil yn mynd ymlaen i Gyfnod 2 lle bydd y Pwyllgor yn cynnig a phleidleisio ar ddiwygiadau. Mae amserlen y Pwyllgor Busnes ar gyfer y Bil yn pennu bod rhaid cwblhau Cyfnod 2 erbyn 21 Ebrill 2023.

Yna, bydd y Bil yn destun diwygiadau pellach gan yr holl Aelodau o'r Senedd yn y Cyfarfod Llawn (Cyfnod 3) cyn pleidlais Cyfarfod Llawn derfynol ynghylch a ddylid pasio'r ddeddfwriaeth (Cyfnod 4).